

01/09/22

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Gobeithio eich bod wedi cael cyfle i ymlacio a mwynhau fel teulu dros y gwyliau?

Gwych yw gallu llongyfarch disgyblion Bl.10-13 ar eu llwyddiant yn yr arholiadau TGAU a Safon Uwch eleni. Mae'r disgyblion wedi perfformio'n eithriadol o dda gyda'r canlyniadau gorau i ni fel ysgol ers rhai blynedd - diolch i bob un ohonynt am eu hymdrechion clodwiw, i'r staff am eu holl arweiniad ac i chi fel rhieni/gwarcheidwaid am roi'r gefnogaeth iddynt i lwyddo.

Ga i eich atgoffa am y trefniadau ail ddechrau o wythnos nesaf ymlaen:

| DECHRAU TYMOR YR HYDREF 2022-23 |   |
|---------------------------------|---|
| Llun 05.09.22                   | HMS – dim ysgol i ddisgyblion                   |
| Mawrth 06.09.22                 | HMS – dim ysgol i ddisgyblion                   |
| Mercher 07.09.22                | Blwyddyn 7, 12 a 13eg yn unig i fynychu'r ysgol |
| Iau 08.09.22                    | Pob disgybl yn dychwelyd Bl. 7-13eg             |

Gyda'r newyddion am wasgedd costau byw yn cynyddu, hoffwn dynnu eich sylw at y cyfleoedd isod ar gyfer cynnig cefnogaeth i rieni yn ystod y cyfnod heriol tu hwnt yma - cliciwch ar y ddolen yma: [Cymorth ariannol ar gael i ddysgwyr a'u teuluoedd | LLYW.CYMRU](#) am fanylion o gynlluniau ar wefan Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd. Os gallwn ni gefnogi ymhellach fel ysgol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Yn ogystal, rydym yn gweld gwerth mewn ceisio ailgylchu gwisg ysgol nad sydd angen bellach ar deulu. Felly, os oes gwisg ysgol gennych allai gael ei ail-ddefnyddio o ran ei ansawdd, a'i bod bellach yn rhy fach i'ch plentyn ac na fyddwch yn gweld unrhyw werth arall iddi, gofynnwn i chi ystyried ei rhoi i'r ysgol. Fe allwn ni ei hail-ddosbarthu i gefnogi dysgwyr a rhieni gyda'r costau sydd yn dod gyda gwisg newydd. Fe all y dillad yma gael eu defnyddio fel ail set o wisg ysgol, sydd o hyd yn ddefnyddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Y bwriad yw casglu unrhyw wisg ail law ar ddydd Gwener yr 2ail o Fedi a dydd Llun y 5ed o Fedi er mwyn gallu ei gynnig yn rhad ac am ddim o 'siop yr ysgol' ar ddydd Mawrth y 6ed o Fedi i unrhyw ddysgwr a rhiant fyddai'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth. Gofynnwn i chi sicrhau bod y dillad yn lân ac o ansawdd i'w wisgo eto. Os yw'n bosib, a fydddech yn gallu gollwng y dillad yn swyddfa'r ysgol ar ddydd Gwener yr 2ail rhwng 10 a 2yp a rhwng 9 a 3 yp ar ddydd Llun? Diolch o flaen llaw am eich cydweithrediad ar y fenter yma, un ble y gallwn barhau i gefnogi disgyblion a rhieni i'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu eich plentyn yn ôl i'r ysgol wythnos nesaf a thrwy gydweithio agos rhwng yr ysgol a'r cartref, gallwn gefnogi pob disgybl i lwyddo i'r dyfodol.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth: Mr Simon Davies

